Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 65** **Hydref 2023**



*'aeth y cynhaeaf heibio, darfu'r haf …'*

# Ffarwél haf

Dwi'n sicr nad fi ydy'r unig un sy'n cysylltu blodau gyda digwyddiadau, llefydd neu emosiynau arbennig.

Bydd gweld y pabi coch yn broc i'r cof i gofio am ddioddefaint meysydd y gad. Ar Sul y Cofio ym mis Tachwedd bydd llawer yn defnyddio'r blodyn tyner, rhuddgoch hwn fel arwydd i gofio am waed y miloedd a dywalltwyd ac ar yr un pryd i weddïo am heddwch.

I eraill, efallai, bydd persawr cryf y lili yn deffro rhyw dristwch wrth iddynt gofio am ddyddiau o alar a cholled, tra bydd gweld rhosyn coch, i'r mwyaf rhamantus yn ein plith, yn ein hatgoffa am gariad rhywun arbennig.

Bydd eraill yn cysylltu blodau â llefydd arbennig.

Tybed faint ohonom sy'n cael ein hatgoffa wrth basio Tomen y Mur, ychydig i'r gogledd o Drawsfynydd, am harddwch Blodeuwedd? Yno, yn ôl y chwedl, y crëwyd Blodeuwedd o flodau'r deri, y banadl, a blodau erwain. Drwy hud a swyn crëwyd un o'r merched harddaf a thlysaf a welwyd erioed.

Tybed a oes yna flodyn sy'n ein llonni gyda'i wedd yn fwy na blodyn yr haul? Yr hyn a gyflawna banjo ar ein clyw yw'r hyn a gyflawnir gan wenau blodau'r haul! A phan oedwn i graffu ar berffeithrwydd petalau cain rhosynnau yn yr haf, neu pan ganfyddwn fod arogl lafant neu'r pys pêr wedi ein hatal ar ein taith, a hynny'n ddiarwybod i ni ein hunain, synhwyrwn rywsut y cawsom ein dal yng ngharchar cyfareddol eu persawr a'u hawgrym o hyfrydwch arallfydol, nefol.

Pan fydd y dyddiau'n byrhau a thyfiant planhigion eraill yn dechrau arafu; pan fydd y madarch yn gwthio'u pennau drwy'r gwair; pan fydd y wennol wedi ffoi am diroedd cynhesach; bryd hynny daw'r Ffarwél Haf (Chrysanthemum) i wisgo'u dillad gorau.

(Llun y clawr: Zaki Ahmed ar Unsplash)

Hyd nes y daw'r rhew cyntaf i'w glwyfo, saif y gwarchodwr hardd yn ei lifrai i gyhoeddi bod yr haf yn cefnu arnom a bod angen i ninnau hefyd ddechrau ymbaratoi ar gyfer y gaeaf hir sydd o'n blaenau.

Ganrifoedd yn ôl, edrychodd Jeremeia ar ei genedl gan gyhoeddi ffarwél ar haf ei hurddas a'i bendith. Roeddynt fel cenedl wedi cefnu ar Dduw ac yn gweithredu'n anghyfiawn tuag at ei gilydd a thuag at yr anghenus. Eisoes roedd sain martsio milwrol eu gelynion ar eu hymdaith tuag at Jerwsalem wedi cychwyn. Galarai Jeremeia wrth weld ei bobl yn ymserchu mewn eilunod mud. Ni fedrai duwiau cynnydd, llwyddiant a ffrwythlondeb eu gwaredu yn nydd cyfyngder.

A galarodd, 'oherwydd briw merch fy mhobl yr wyf finnau wedi fy mriwo, wedi galaru, ac wedi fy nal gan syndod'. Pwy ohonom na fyddem yn tristáu gyda'r proffwyd duwiol hwn wrth weld mor wag, mor ddiffrwyth, mor ddifywyd yw eilunod ein hoes ninnau? Tristwch chwerw ein hamgylchiad yw nad ydym yn adnabod ein trueni. Do, fe 'aeth y cynhaeaf heibio, darfu'r haf, a ninnau heb ein hachub', meddai.

Er hyn i gyd tystiodd Jeremeia i ryfeddod gras Duw (a chanodd Paul Robeson yntau amdano ganrifoedd yn ddiweddarach). Tystiodd Jeremeia i'w genhedlaeth ei hun, 'Onid oes balm yn Gilead? Onid oes yno ffisigwr?' Y mae'r cwestiwn ynddo'i hun yn gondemniad o wagedd dewis dduwiau ei oes. Mae'r cwestiwn yn mynnu'r ateb, 'Oes, mae balm yng Ngilead' rhagorach, anwylach na dim a welwyd yn y byd i leddfu'r doluriau a'r clwyfau dyfnaf ym mhob oes.

Braint Eglwys Iesu Grist yw cael tystio, er yr 'aeth y cynhaeaf heibio, darfu'r haf, a ninnau heb ein hachub', bod balm, bod iachâd, bod gwaredwr. Wrth i ninnau gefnu ar yr haf ac wynebu'r hydref, ac wrth i ni droi ein golygon tua'r Nadolig yr un fydd testun rhyfeddol ein cân. Do, 'daeth duwdod mewn baban i'n byd'. Oes, mae balm i leddfu ac i'n hiacháu!

*Watcyn James*

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 5 Hydref | Cyfarfod 'Gwreiddiau' yn festri'r Garn<br>am 10.15 o'r gloch |
| 8 Hydref | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel y Garn, am 10 o'r gloch |
| | Cinio'r ofalaeth i ddiolch am wasanaeth<br>gweinidogion yr ofalaeth<br>Gwesty'r Marine, Aberystwyth, am 12 o'r gloch |
| 16 Hydref | 'Sut allwn ni helpu i warchod yr amgylchedd?'<br>Cyflwyniad arbennig gan Rhys Bebb Jones<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 17 Hydref | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 22 Hydref | Oedfa gymun yr ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel y Garn, am 10 o'r gloch |
| 17 Rhagfyr | Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau<br>Capel y Garn am 5 o'r gloch |
| 24 Rhagfyr | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>yn rhithiol dros Zoom am 10 o'r gloch |
| 25 Rhagfyr | Oedfa ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch<br>yng Nghapel y Garn, dan arweiniad y Gweinidog |


**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**

Y Parchedig Ddr R. Watcyn James

Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ

01970 880615

ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

# Tudalen y Plant

Wyt ti wedi bod mewn gwasanaeth diolchgarwch - yn yr ysgol neu'r capel? Tymor yr hydref yw tymor diolch am y cynhaeaf. Ysgrifenna 5 peth rwyt ti am ddiolch i Dduw amdano:

1. ______________________________
2. ______________________________
3. ______________________________
4. ______________________________
5. ______________________________

| Iesu | diolch | sêr |
|---|---|---|

Dewis y gair cywir i lenwi'r bylchau.

Pwy wnaeth y _ _ _ uwchben?

Diolch, diolch, _ _ _ _

Paid ag anghofio dweud, '_ _ _ _ _ _'

## ‘Cwbwl ydyw gwaith dy law’

Bu 1983 yn flwyddyn o bwys neilltuol yn fy hanes. Wedi priodi Lowri ym mis Ebrill, cwblhau’r flwyddyn fugeiliol yn y Coleg Diwinyddol ym mis Mehefin, symud i fyw i ardal Cross Hands yn sir Gaerfyrddin, cael fy sefydlu yn weinidog yn eglwysi Bethel, Cross Hands; Pentwyn a Gibea, Cwmgwili, ym mis Gorffennaf, roedd fy ordeinio ar 21ain o Fedi yn Salem, Pwllheli, yn ddiwrnod bythgofiadwy. Roedd yn ddiwedd un cyfnod o baratoi ac yn ddechrau pennod newydd sbon.

Wrth edrych yn ôl dros ysgwydd amser rwy’n ymwybodol iawn o’r cannoedd o gamgymeriadau a wnaed gennyf.

Rwy’n ymwybodol bod gennyf gymaint o bobl rwy’n ddyledus iddynt am eu cyngor a’u gweddïau, gan gynnwys Mrs Lillian Jones, athrawes Ysgol Sul ym Methesda, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, a ddysgodd i ni fel plant i fwynhau hanesion o’r Beibl.

Rwy’n ddyledus i Athrawon y Coleg Diwinyddol am eu hamynedd a’u dysg, am gyfleoedd academaidd i astudio ymhellach, am gefnogaeth cannoedd o aelodau eglwysi. Prin fod angen i mi ei nodi, ond y mae fy nyled i’m rhieni am y profiad o gael byw yn yr India, yng Nghoedpoeth, yn Melbourne, Awstralia, ac yn Llanrhaeadr YM, yn gwbl ffurfiannol.

Uwchlaw pob rhodd, neu gyfle, neu fraint a ddaeth i’m rhan, mae fy niolch i’r Arglwydd am Lowri fel cydymaith oes ar ben y rhestr. Cyfoethogwyd ein bywydau ymhellach ar ddyfodiad ein plant i’r aelwyd.

Er i mi feddwl yn fy arddegau yr hoffwn fod wedi mwynhau gyrfa gerddorol yn canu’r trwmped, o edrych yn ôl, doedd dim llwybr arall yn agored i mi ond bod yn bregethwr.

Pump oed oeddwn i. Roeddem yn ymweld â fferm Uwchlaw’r Coed yn Nyffryn Ardudwy, lle’r roedd fy ewythr yn ffermio. Cofiaf gerdded gyda’m tad drwy’r coed at gae bychan yn llawn o ddefaid, a chapel bach oedd a’i ddrysau’n eisiau yn ymyl y cae. Roedd ôl praidd o fath gwahanol i braidd arferol capeli cefn gwlad ar lawr y capel!



Ond yn yr adeilad bychan hwn roedd pulpud. Wedi dringo i'r pulpud a dweud mewn llais mawr, 'Duw cariad yw', terfynodd y bregeth. Fel y dywedodd fy nhad wrthyf, 'Os bregethi di mor glir â hynny ac mor fyr â hynny, fe fyddi di'n bregethwr poblogaidd iawn.'

Cofiaf ddweud wrth deulu fy mam, yn y de, pan oeddwn tua wyth oed fy mod am fod yn 'bregethwr' pan oeddwn yn tyfu'n fawr. Eu hateb, bryd hynny hyd yn oed oedd, 'Fydd dim byd ar ôl erbyn i ti dyfu.'

A chofiaf, pan oeddwn oddeutu naw oed, ganu yn y gwasanaeth boreol yn yr ysgol gynradd, 'Cymer, Arglwydd, f'einioes i ...' a'i feddwl, bob gair. Nid anghofiaf, er nad oeddwn yn deall yn llawn arwyddocâd yr hyn a ganwyd gennyf, ddiffuantrwydd fy nymuniad na'r gwres a gydiodd ynof trwy ras Duw.

Ac yn wir, yn ein capel bach yn Llanrhaeadr YM, dechreuais yn ifanc iawn, tua 15 oed, baratoi rhyw damaid o anerchiad ar ambell fore Sul 'gwag'. A dechreuais ymestyn y tu hwnt i'n cynulleidfa gartref pan oeddwn oddeutu 17 mlwydd oed.

Dim ond wrth edrych yn ôl y deallaf arwyddocâd rhywbeth ddigwyddodd i mi yn y Bala ar droad y flwyddyn yn 1975. Roeddwn yn cerdded yn ôl, o lan Llyn Tegid i Goleg y Bala, ar fy mhen fy hun (roedd pawb arall wedi mynd o'm blaen). Roeddwn wedi cael fy argyhoeddi bod unrhyw 'Dduw' yr oeddwn i'n cyfeirio ato yn Fod oedd wedi ei gyfyngu i gapel, a defod a llyfr. Doedd o ddim fel pe bai'n fyw. Ymddangosai profiad y dynion ifanc eraill oedd ar y cwrs yn real, yn fyw ac yn wefreiddiol. Yno cyfaddefais fy syched a'm hawydd. Cofiaf weddïo (os mai dyna yw'r gair i ddisgrifio deisyfiad mor ddisylwedd ac arwynebol): 'Arglwydd, dwi isio beth sydd ganddyn nhw.'

Mi wn, i waelod fy mod, y daeth ateb i'r dyhead. A phenderfynais yn y fan a'r lle y byddwn yn cyflwyno fy hun i fod yn weinidog, yn bregethwr. Ac mi wyddwn hefyd o'r eiliad honno fod gennyf destun, cyfeiriad a diben i unrhyw bregeth fyddai gennyf: 'Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder.' (Ioan 10:10)

Pan sefais am y tro cyntaf ym mhulpud Bethel, Cross Hands, cefais fy llawenhau wrth weld y geiriau 'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu' wedi eu hysgrifennu ar bren. Beth allai fod yn well i bregethwr na chael bod mewn cynulleidfa o bobl sydd am weld ac adnabod Iesu?

Chwilio, olrhain, ceisio deall a dirnad a chyfleu rhyfeddod person yr Arglwydd Iesu Grist fu canolbwynt fy ngalwad a'm neges. Caiff eraill farnu ffyddlondeb, effeithiolrwydd neu werth yr alwad. Digon i mi yw pwyso ar ras ein Harglwydd Iesu Grist, ar gariad Duw ac ar gymdeithas ei Ysbryd Glân.

**Diolch, Watcyn, am rannu'r atgofion gwerthfawr hyn â darllenwyr 'Gair o'r Garn' a llongyfarchiadau calonnog iawn ar gyflawni 40 mlynedd o wasanaeth yn y Weinidogaeth. Diolch am y cyfan rydych chi'n ei wneud yn holl eglwysi'r ofalaeth a'r fro – a phob dymuniad da i chi yn y dyfodol.**

# Gwreiddiau



Addawodd yr Arglwydd y bydd ei bobl fel 'pren wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor a'i ddalen heb fod yn gwywo' (Salm 1).

Plannu ein Gwreiddiau'n ddwfn yn ei air a drachtio o ddyfroedd bywiol gras. Onid dyna gyfrinach bywyd ysbrydol toreithiog?

Yn ystod y cyfnod cyn Covid buom yn cyfarfod yn wythnosol, fel grŵp bychan, i fyfyrio am 'Wreiddiau' ein ffydd. Pan ddaeth Covid yn ei anterth, cawsom 'Sgwrs a chlonc dros baned'. Byddai'r sesiynau hynny'n gorffen gyda rhyw 'fyfyrdod' bychan; ac yn ystod y gaeaf diwethaf buom yn cwblhau'r Llythyr at y Philipiaid ar ddiwedd ein sgwrsio.

Mae nifer wedi holi tybed a fydd 'Gwreiddiau' yn ailafael a thybed a fedrwn ni gyfarfod wyneb yn wyneb fel o'r blaen?

Gyda'r bwriad o chwilio am ffyrdd i gynnal grŵp o'r fath, carwn eich gwahodd **fore Iau, 5 Hydref, am 10:15** am baned yn festri'r Garn, cyn inni ddechrau ar ein trafodaethau tua 10.30 o'r gloch. Bydd angen inni holi am briodoldeb cyfarfod wyneb yn wyneb. Neu a fyddwn am gyfarfod yn rhithiol dros Zoom? Neu a fyddai'r grŵp am gyfarfod mewn cyfuniad o gyfarfodydd rhithiol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb?

Cawsom flas neilltuol yn ein sgyrsiau a'n trafodaethau dros yr adegau y buom yn cyfarfod. Mae Gwreiddiau yn fan diogel lle medrwn geisio deall a dirnad, a rhannu profiadau ffydd ynghyd â chwestiynau yr hoffem ymdrin â hwy. Uwchlaw pob cymdeithas ymhlith ein gilydd mae Gwreiddiau'n cynnig cyfle i ni nesáu at Iesu i ddysgu gan yr Athro drwy ei air i ni.

Felly, byddai'n braf i ni gael cyfle, wedi'r ymbellhau cymdeithasol, i gwrdd wyneb yn wyneb i drafod y ffordd ymlaen gyda'n gilydd. Ac os oes rhywrai eraill yr hoffech eu gwahodd i'r grŵp … Wrth gwrs, mae croeso i chi eu gwahodd i ymuno â ni.

*Watcyn James*

(*Llun: Zach Reiner ar Unsplash*)

## Pen-llwyn

Roedd dydd Sul, 3 Medi, yn Sul arbennig i aelodau Pen-llwyn am ein bod yn cael y fraint o groesawu aelodau o'r Ofalaeth gyfan i'n cymdeithas ni yma. Yn anffodus, roedd llawer o'r aelodau yn digwydd bod ar wyliau, ond cafwyd gwasanaeth bendithiol dan arweiniad ein Gweinidog a phob un yn tystio mai da oedd bod yn bresennol. Cymerwyd rhan gan wahanol aelodau o'r Ofalaeth a chawsom orig fechan yn myfyrio ar hanes Moses yn cael ei alw gan Dduw i arwain cenedl Israel allan o'r Aifft i wlad Canaan.

Roedd Duw yn ei sicrhau pwy oedd yn siarad ag ef ac yn dweud mai 'Ydwyf yr hyn Ydwyf' oedd yn bwriadu ei gynorthwyo ar y daith anodd o'i flaen. Darllenwn yn aml yn y Beibl am Dduw yn ei ddisgrifio ei hun fel 'Myfi yw' ... goleuni'r byd, bara'r bywyd, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd ac yn y blaen. Roedd cael cymorth ar y daith yn golygu llawer i Moses, fel y mae'n golygu i ninnau bob un heddiw. Diolch fod gennym graig i bwyso arni ar adegau anodd fel ag yn yr amseroedd da hefyd.

Catrin Evans oedd organyddes y bore – diolch iddi. Cawsom baned wrth gymdeithasu yn y festri a neb yn rhuthro am adre. Beth ddaeth o'r cinio dydd Sul, wn i ddim, ond roedd y paratoadau'n werth chweil, diolch i bob un am bob cymorth.

*Heulwen Lewis*

## Boreau Coffi

Bydd y boreau coffi sy'n cael eu trefnu ar y cyd gan Bwyllgor Neuadd Rhydypennau, Capel y Garn, Capel Noddfa, ac Eglwysi Llandre a Llangorwen, yn ailddechrau yn Neuadd Rhydypennau fore Gwener, 6 Hydref.



Croeso cynnes i unrhyw droi i mewn am baned a sgwrs rhwng 10 a 12 o'r gloch.



## Capel Seion yn dathlu 200 mlwyddiant yr Achos

## Sul, 15 Hydref, am 2.00 o'r gloch

Bydd yr oedfa yng ngofal aelodau'r capel
ac yn dathlu ac yn diolch am gyfraniad aelodau
ddoe, heddiw ac yfory

Te Parti i ddilyn!

Gwahoddir chi, o bell ac agos, i ymuno yn y dathliad.

Byddem wrth ein bodd pe baech yn medru rhannu rhai o'ch atgofion chi am Gapel Seion a'ch ymwneud â'r capel a'r ardal. Anfonwch hwy ar bapur neu ar e-bost ynghyd â lluniau at:
Ina@tudnowilliams.com neu
Brynawel, Pant-y-crug, Aberystwyth, SY23 4EF.

Dewch yn llu

**Dwyn i gof    Dathlu    Creu  atgofion newydd**

Llongyfarchiadau calonnog a'n dymuniadau gorau:

i Iwan Williams a Judith Oguguo ar eu priodas ddechrau Mehefin yn Glasgow; mae'r ddau gweithio fel meddygon yn Ysbyty Maelor, Wrecsam;

i Osian ac Erwain ar enedigaeth eu mab, Lewys Rhys James, brawd i Betsan, ŵyr i Llio a Penri, a gorwyr i Erddyn a Gwenda;

i Mary a Rees Thomas ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ar 10 Awst;

i Rhun Penri a Vicky ar eu priodas ar 7 Hydref.




Llongyfarchiadau i Lois ac Ura ar eu priodas yng Nghapel y Garn ddydd Sadwrn, 16 Medi. Roedd yn braf gweld ieithoedd a diwylliannau Cymru a Fiji yn cydblethu'n hyfryd wrth i'r ddau deulu ddod ynghyd yng ngwasanaeth priodas Lois ac Ura.
Pob dymuniad da i chi eich dau!

## Capel y Garn

## Hydref

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

1 Oedfa dan arweiniad y Parch Richard Lewis
Capel Noddfa am 10 o'r gloch

4 Te Diolchgarwch yn festri'r Garn am 2 o'r gloch
Trefnir gan Chwiorydd y Garn

5 Cyfarfod 'Gwreiddiau' yn festri'r Garn am 10.15 o'r gloch

8 Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

Cinio'r ofalaeth i gydnabod yn ddiolchgar wasanaeth:

Y Parch Ddr R. Watcyn James (ordeiniwyd 1983)
Y Parch Ddr John Tudno Williams (ordeiniwyd 1963)
Y Parch Wyn Rhys Morris (ordeiniwyd 1998)
Y Parch Elwyn Pryse (ordeiniwyd 1954)

yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, am 12 o'r gloch

15 Oedfa ddiolchgarwch dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

16 'Sut allwn ni helpu i warchod yr amgylchedd?'
Rhys Bebb Jones – festri'r Garn am 7 o'r gloch

17 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
festri'r Garn am 7 o'r gloch

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn
Noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes,
Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus,
Cymdeithas Bêl-droed Cymru, am 7.30 o'r gloch

22 Oedfa gymun yr ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

29 Oedfa dan arweiniad y Parch Athro John Tudno Williams
am 10 o'r gloch

## Capel y Garn

## Tachwedd

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

5 Oedfa dan arweiniad y Parch Wyn Morris
am 10 o'r gloch

12 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dod i adnabod Gruffydd Aled Williams:
noson yng nghwmni Gruffydd Aled a golygyddion
y gyfrol deyrnged iddo a gyhoeddwyd yn ddiweddar'

19 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

26 Oedfa dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd
am 10 o'r gloch

### Cymorth Cristnogol yn lansio apêl frys ar gyfer Libya

Mae miloedd o bobl wedi marw a miloedd eto ar goll yn dilyn y llifogydd dinistriol a sgubodd ymaith gymdogaethau cyfan yn ninas porthladd Derna yn Libya. Mewn ymgais i helpu i ddarparu cymorth hanfodol, mae Cymorth Cristnogol wedi lansio apêl frys.

Yn drychinebus, fe chwalodd Storm Daniel ddau argae, ac yn sgil y llifogydd a'r malurion a lifodd drwy'r ddinas, dymchwelwyd cartrefi ac adeiladau eraill a datgysylltwyd cyflenwadau ynni a dŵr.

Byddai rhodd o £25 yn talu am becyn ymateb dyngarol sy'n cynnwys arian ac eitemau megis blancedi, offer glanweithdra a hylendid – hylif sebon, siampŵ, brwshys dannedd – a dŵr potel.

I gefnogi'r apêl, ewch i www.christianaid.org.uk

## Capel y Garn

## Rhagfyr

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

| | |
|---|---|
| 3 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 10 | Oedfa dan arweiniad y Parch Richard Lewis<br>yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch |
| 15 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Nadolig y Beirdd' gyda'r Athro Peredur Lynch |
| 17 | Oedfa Nadolig deuluol dan arweiniad<br>y Gweinidog am 10 o'r gloch<br>Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau am 5 o'r gloch<br>– darlleniadau a cherddoriaeth ar gyfer y Nadolig |
| 24 | Gwasanaeth Nadolig yr ofalaeth am 10 o'r gloch<br>yn rhithiol dros Zoom |
| 25 | Oedfa ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch<br>yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Gweinidog |
| 31 | Oedfa ddiwedd blwyddyn am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Gweinidog |

'Gwneud y pethau bychain'- camau i warchod y greadigaeth

Yn ôl y newyddion diweddaraf mae Llywodraeth San Steffan fel petai'n ymbellhau o'i hymrwymiad i warchod y greadigaeth ac yn arafu'r broses o symud tuag at fyd digarbon. Yr un pryd gwelwn effeithiau dramatig newid hinsawdd ar draws y byd. Beth yw'n cyfrifoldeb ni fel cynulleidfaoedd yn y dyddiau hyn? Oes yna unrhyw beth ymarferol y medrwn ei wneud? Cynhelir cyfarfod arbennig **nos Lun 16 Hydref, yng Nghapel y Garn am 7.00**. Bydd Rhys Bebb Jones, Llambed (Cydlynydd Hyfforddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Hyrwyddwr Polisi Amgylcheddol yr Henaduriaeth) yn ein harwain i ystyried rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu, ynghyd â rhai camau ymarferol y medrwn ni eu cymryd. Gobeithio y medrwch fod yno i rannu yn y trafodaethau.




Dr Bleddyn Huws a Dr Robin Chapman yn cyflwyno copi cain o’r gyfrol deyrnged i’r Athro Gruffydd Aled Williams yn ystod y lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol




‘Dod i adnabod Gruffydd Aled Williams: noson yng nghwmni Gruffydd Aled a golygyddion y gyfrol deyrnged iddo a gyhoeddwyd yn ddiweddar’

Nos Wener, 17 Tachwedd, am 7.30 yn festri’r Garn, trefnir gan Gymdeithas Lenyddol y Garn

## Cyhoeddi Cyfrol Deyrnged i'r Athro Gruffydd Aled Williams

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd *Penrhaith ein heniaith ni: Cyfrol Deyrnged yr Athro Gruffydd Aled Williams*, sef casgliad o 11 ysgrif academaidd gan ysgolheigion o bob cwr o Gymru. Mae'r cyfranwyr wedi dewis eu pynciau'n ofalus gan ysgrifennu am un o'r cyfnodau y mae Gruffydd Aled ei hun wedi ymddiddori ynddynt.

Hynodrwydd y casgliad o ysgrifau yw ehangder arbenigedd yr Athro Gruffydd Aled yn ystod ei yrfa fel ysgolhaig, o'r Gogynfeirdd i lenorion yr unfed ganrif ar hugain. Yn eu mysg, trafodir yn fanwl un o gywyddau Dafydd ap Gwilym gan Dylan Foster Evans, ac mae Patrick Sims-Williams yn craffu ar destun sy'n perthyn i'r cyfnod ar ôl Gwrthryfel Owain Glyndŵr. Golygwyd y casgliad yn ofalus gan T. Robin Chapman a Bleddyn Owen Huws – dau sydd hefyd wedi cyfrannu ysgrifau yn ogystal â chyflwyniadau hyfryd yn mynegi eu gwerthfawrogiad personol o'r gefnogaeth a'r ysbrydoliaeth a gawsant gan yr Athro Gruffydd Aled ar hyd y blynyddoedd.

O Fangor i Ddulyn ac o Lyndyfrdwy i Aberystwyth, mae diweddglo'r cywydd cyfarch iddo gan Huw Meirion Edwards yn cyfleu ei gyfraniad i'r dim:

> Rhannu'n wâr a rhoi yn ôl
> Yn ddiwyd ddiymddeol
> A fyn: a heuo a fed –
> Hau'n helaeth a wnaeth Aled.

Cafwyd lansiad arbennig ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, gyda phabell Prifysgol Aberystwyth yn orlawn o gyd-weithwyr, cyfeillion, teulu a chyn-fyfyrwyr. Cyflwynwyd copi cain o'r gyfrol i Gruffydd Aled gan y golygyddion.

Cyhoeddwyd y gyfrol gan Atebol mewn cydweithrediad ag Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth. Dyluniwyd gan Owain Hammonds, gyda llun y clawr wedi ei dynnu gan Iestyn Hughes. Y pris yw £19.99 ac mae ar gael yn eich siopau llyfrau lleol neu ar wefan Gwales.

# Cofio Tegwyn Rhosgoch

Ar fferm Rhosgoch yng Nghapel Madog ar 28 Ionawr 1944 y ganwyd John Tegwyn Lewis, mab cyntaf-anedig William John a Catherine Mary Lewis. Yn ddiweddarach daeth yn frawd mawr i Llinos. Un o'r Masons oedd Tegwyn ar ochr ei fam a Lewis ar ochr ei dad.

Mynychodd Tegwyn Ysgol Gynradd Penrhyn-coch, cyn symud ymlaen i Ysgol Dinas ar y Waun. Doedd fawr o ddiddordeb ganddo yn yr ysgol, ac er ei fod yn mynd yno'n hapus bob dydd, roedd yn ysu am gael gadael yn 15 oed. Ond roedd yn giamster yn yr adran fathemateg a bu ffigurau ar flaenau ei fysedd gydol ei oes.

Ar ol gadael yr ysgol ymunodd â'i dad i ffermio Rhosgoch, ond yn anffodus pharodd hynny ddim yn hir gan iddo golli ei dad pan oedd yn 22 oed. A bu'n rhaid iddo ymgymryd â ffermio Rhosgoch, Banc y Darren a Wenffrwd ar ei ben ei hunan.

Roedd Tegwyn yn gwybod nad oedd angen iddo fynd yn bell i ddarganfod gwraig – yn wir, dim ond i'r fferm drws nesaf. Roedd ei lygad ar Aldwyth y Gelli, ac yn 1972 mi briododd y ddau yng Nghapel Madog. Yn ystod y cyfnod o hanner can mlynedd y buont yn briod ganwyd iddynt ddwy ferch, Mererid ac Angharad, a phedwar o wyrion: Aneurin, Martha, Elan a Blodwen.

Cysur mawr i Tegwyn oedd fod Angharad wedi ymuno ag ef i ddilyn crefft gyntaf dynol-ryw yn Rhosgoch ac erbyn hyn mae Aneurin yna hefyd. Ond roedd bob amser mor prowd fod Mererid yn dilyn ôl ei droed ef pan fyddai Cymreictod a gwleidyddiaeth yn y cwestiwn. Anghofiwn ni byth mo'r wên ar ei wyneb pan gafodd Mererid ei swydd yn gweithio yn y Cynulliad i Dafydd Wigley.

Diléit mwyaf Tegwyn oedd mynychu marts defaid ar draws y wlad, i fyny i Ddolgellau, Bala, Cemaes Road, Machynlleth, ac wrth gwrs i Aberystwyth. Bu iddo wedi gwneud cyfeillion agos iawn yn yr ardaloedd hynny tu allan i Geredigion.

Daeth yn brynwr ŵyn i gwmni Oriel Jones a'i fab yn Llanybydder, ac mi wnaeth gannoedd o siwrneiau yn y lorri lawr i Lanybydder. Byddai'n trio plesio Oriel wrth gael pris da am yr ŵyn, ond hefyd yn gwneud yn siŵr fod y ffermwr yn cael pris teg ac, wrth gwrs, yn gwneud ceiniog neu ddwy iddo'i hunan.

Roedd wrth ei fodd yn pigo ŵyn tew – job TL oedd honno a neb arall! Y ddafad fynydd Gymreig oedd ei hoff ddafad; doedd dim maeddu arni yn ei feddwl ef.



Roedd Tegwyn yn berson cymdeithasol iawn ... byth adre!! Roedd yn galw ar gymdogion a ffermwyr i ddala lan ac i holi: ‘Be sy mla’n?’ neu ‘Pa news’? Roedd yn dynnwr coes heb ei ail ac wrth ei fodd yn gwneud drygioni diniwed, yn enwedig y noson cyn priodas yn y fro!

Roedd yn Gymro i’r carn, gyda’r Blaid ac Undeb Amaethwyr Cymru yn agos iawn at ei galon. Gresynai fod etholiadau seneddol yn cael eu cynnal ar adeg wyna, ond am flynyddoedd bu Discovery Rhosgoch yn cael ei rhoi i ganfasio i’r Blaid yn y sir.

Bu’n aelod gweithgar ar nifer o bwyllgorau am ddegawadau o flynyddoedd a’r rheiny’n cynnwys: Bwrdd Gwlân Prydain, Undeb Amaethwyr Cymru, Cyngor Cymuned Trefeurig, Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch, Cymdeithas Defaid Mynydd Cymru, Treialon Cŵn Defaid Banc y Darren, Clwb Hela Penllwyn a’r Cylch, Cyfeillion Cartref Tregerddan.

Bu’n flaenor ac yn Ysgrifennydd Capel Madog am dros hanner can mlynedd, ac roedd yn eithriadol o ffyddlon i’r gwasanaethau yno.

Yn ei amser hamdden, byddai wrth ei fodd yn canu gyda Chôr Cantre'r Gwaelod (er y credwn mai er mwyn yr hwyl a'r cymdeithasu yn hytrach na'r canu yr oedd yn mynd), neu'n mynd lawr i Glwb Rygbi Aberystwyth i wylio ambell gêm. Byddai hefyd yn mwynhau mynychu'r Cylch Cinio a chyfarfodydd Cymdeithas y Penrhyn.

Dyn ei filltir sgwâr oedd Tegwyn a doedd fawr o awydd mynd ar wyliau arno. A phan aeth ef ac Aldwyth ar daith i Batagonia gydag Alun ac Enid, Tegwyn fyddai'r cyntaf i gyfaddef faint o hiraeth oedd arno. Roedd yn dyheu am gael gweld Rhosgoch a Banc y Darren eto – a thaith hir iawn oedd y siwrnai adref iddo.

Y fraint fwyaf gafodd Tegwyn oedd ennill gwobr Cymru gyfan gan y Gymdeithas Tir Glas am ei waith adfer a gwella tir yn 1984. Cafwyd diwrnod agored ar y fferm fynydd yn Wenffrwd, gyda gwahoddedigion o bob rhan o Gymru wedi dod i weld y fferm – diwrnod arbennig iawn.

Braint bellach a dderbyniodd yn 2003 oedd cael ei urddo'n Gymrawd gyda Chymdeithas y Sioe Frenhinol am ei waith nid yn unig yn gwella'r tir mynydd ond hefyd fel prynwr ŵyn a defaid.

Mae llawer wedi sôn fod Tegwyn yn gymwynaswr heb ei ail. Os gallai helpu unrhyw un mewn unrhyw ffordd, fe wnâi hynny heb feddwl eilwaith. Byddai cymdogion a chyd-ffermwyr yn dod i Rosgoch yn gofyn am gael benthyg rhyw dreilyr neu debyg, a'r ateb wastad oedd: 'Ie, ie … cer â fe!'

Cyflwynwyd yr englyn hwn i'r teulu yn dilyn marwolaeth Tegwyn:

Yn nydd ei fyw lleisiodd ei farn, – yr oedd
O'i ruddin heb ragfarn;
Dyn y wlad a'r llaw gadarn,
Diwyro, Cymro i'r carn.

Cafodd Tegwyn ofal cariadus gan Aldwyth, Mererid ac Angharad yn ystod y deunaw mis diwethaf yma, a rhaid diolch hefyd i'r tîm o Syrjeri Ystwyth ac i griw Qcare am eu ffyddlondeb a'u gofal. Heb yr holl ofal yma, fyddai hi ddim wedi bod yn bosibl i Tegwyn fod adre yn Rhosgoch yn ôl ei ddymuniad.

Byddwn yn colli Tegwyn, ei gwmnïaeth, ei gyfeillgarwch, ei gefnogaeth gyson, y diredi a'r sbort, a'i gariad tuag at bopeth oedd yn bwysig iddo.

Cwsg yn dawel, Tegwyn.

(*Crynodeb o'r deyrnged a gyflwynwyd gan Rhian ac Ioan ar ddydd ei angladd*)

# Agor y Llyfr

Yn ystod yr haf mae Cymdeithas y Beibl wedi ail-lansio'r cynllun Agor y Llyfr. Rhaglen ydyw sy'n:

- creu timau o bobl o gapeli/eglwysi lleol
- sy'n cydweithio ar draws ffiniau enwadol lle mae hynny'n bosib
- yn ymweld ag ysgolion lleol i adrodd stori o'r Beibl, drwy stori a drama.
- Mae'r gweithgaredd yn cael ei arwain gan y tîm ond yn cynnwys disgyblion o'r ysgol hefyd.
- Mae'r sgript a'r canllaw ar gyfer cynnal y digwyddiad wedi ei osod ar ein cyfer.
- Mae'n amser hwyliog a phleserus iawn yng nghwmni'r disgyblion. Gall pob un sydd wedi ymwneud â'r cynllun dystio i hyn!

Y gobaith yw trefnu tîm lleol i ymweld yn achlysurol ag Ysgol Rhydypennau fel rhan o'r cynllun yma. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth neu eich bod yn barod i ymuno â'r tim, cysylltwch â Watcyn neu Marian.



Sarah Morris yn cyflwyno sesiwn ar gynllun newydd Agor y Llyfr yn festri'r Morfa, Aberystwyth

## Beirdd y Talwrn ym Methlehem

Braf oedd gweld ysgoldy Bethlehem, Llandre, dan ei sang nos Iau, 13 Gorffennaf, pan fu BBC Radio Cymru yn recordio dwy ornest o'r rhaglen *Talwrn y Beirdd* yno. Fe gafwyd noson hwyliog iawn, dan arweiniad y Meuryn, Ceri Wyn Jones.

Recordiwyd dwy rownd gynderfynol y gyfres yno – un rhwng timau Dros yr Aber a'r Tir Mawr (darlledwyd ar 23/07/23), ac yna Tir Iarll a'r Ffoaduriaid (darlledwyd 30/07/23).

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm buddugol, sef Dros yr Aber a'r Ffoaduriaid, ac yn arbennig i dîm Dros yr Aber, pencampwyr y *Talwrn* 2023 ac enillwyr y rownd derfynol a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan.


Trefnwyd y noson gan Gymdeithas Lenyddol y Garn, a diolch i Llinos Dafis am ofalu am drefniadau'r baned, ac yn arbennig i Nans, Delyth, Llinos (Dolwerdd) a Linda am eu cymorth.





Timau'r Talwrn a Bethlehem dan ei sang

*Gwasanaethu'r Duw Byw:*
*llawlyfr ar Stiwardiaeth Gristnogol*
gan Dafydd Andrew Jones




Cyfrol sy'n ceisio amlinellu cyfle'r Cristion i wasanaethu yn y cyfnod hwn gyda'i fygythion, ei ofnau a'i ddadrithiad. Mae'r pwyslais yn heriol ar wasanaethu mewn cariad fel ffordd o fyw, gan ymuno â'r Duw Byw i gyfannu bywyd y byd yng Nghrist. Byw a rhannu gobaith yw'r nod. Mae'r rhan gyntaf yn holi pam a sut y gellir gweithredu, drwy ystyried meddwl Crist, rhannu Newyddion Da, a bod yn Newyddion Da, yn y presennol ar gyfer y dyfodol. Yna, yn yr ail ran, rhoddir sylw i'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith.
Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris: £9.99

## Apêl Hadau Gobaith



Yn ystod y Gymanfa Gyffredinol a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, 10–12 Gorffennaf, cyflwynodd y Parch. Evan Morgan, Llywydd y Gymanfa ar y pryd, siec am £150,000 tuag at waith Cymorth Cristnogol. Dyma oedd cyfanswm yr arian a godwyd yn enw apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru – 'Hadau Gobaith'.

Roedd yr apêl yn canolbwytio ar anghyfiawnder hinsawdd ac yn cefnogi prosiectau sy'n bodoli oherwydd yr anghenion sydd wedi codi yn sgil newid hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys diwallu anghenion sylfaenol pobl, sef y gallu i gynhyrchu bwyd, darparu lloches ac addysg, a hawliau merched. Mae anghyfiawnder hinsawdd yn achosi prinder dŵr sy'n effeithio ar heddwch a chymodi o fewn cymunedau.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at yr apêl bwysig hon, yng nghasgliadau oedfaon yr ofalaeth, ac mewn gweithgareddau eraill. Mae pob cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth – felly, diolch!

"Mae'r byd yn doredig. Ond, mae gobaith o hyd. Mae gobaith ym mhobman. Mae gobaith ym mhob rhodd, ym mhob gweithred, ym mhob gweddi."

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Rhagfyr** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com